# ADNABOD CAMWYBODAETH

## YSTYRIWCH Y FFYNHONNELL

Ydy'r ffynhonnell wybodaeth yn un gredadwy? Pwy greodd y wybodaeth a beth yw eu cymhellion? Beth yw bwriad y wybodaeth? Ydy'r parth neu enw'r URL i'w weld yn rhyfedd neu'n debyg i wefan adnabyddus arall?

## YSTYRIWCH YR ARDDULL

Yn aml mae camwybodaeth yn cael ei hysgrifennu i ddenu sylw ac annog pobl i rannu. Ydy'r pennawd yn codi braw neu'n ennyn ymateb emosiynol? Ystyriwch a yw wedi'i ysgrifennu fel ffaith, barn neu barodi hyd yn oed? Neu'n abwyd clicio? Darllenwch yr erthygl lawn, nid dim ond y pennawd.

## EDRYCHWCH AR SAWL FFYNHONNELL

Gwiriwch gywirdeb y stori drwy ei chymharu â ffynonellau eraill. Ydyn nhw i gyd yn dweud yr un peth? Beth am gael barn rhywun arall.

## GWIRIWCH Y FFEITHIAU

Mae nifer o wefannau annibynnol ar gyfer gwirio ffeithiau, fel Full fact neu Snopes sy'n ymchwilio ac yn adolygu gwybodaeth am faterion sy'n trendio ac yn bynciau llosg er mwyn tynnu sylw at gamwybodaeth.

**ATAL** CAMWYBODAETH RHAG LLEDAENU

**MEDDYLIWCH** CYN I CHI RANNU

OS YDYCH CHI'N AMHEUS, **HOLWCH!**


Cadernid Digidol mewn Addysg
Digital Resilience in Education
Hwb®
Llywodraeth Cymru
Welsh Government